



Covid-19: Diogelu a symud gwasanaethau ar-lein

CYFLWYNIAD

Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi cael ei lunio i helpu mudiadau'r sector gwirfoddol ystyried y goblygiadau diogelwch wrth symud eu gwasanaethau ar-lein.

Wrth i ni arfer â hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol, mae llawer o fudiadau gwirfoddol yn gorfod addasu'n gyflym i'r sefyllfa trwy ddefnyddio llwyfannau digidol er mwyn darparu eu gwasanaethau. Mae'r llwyfannau hyn yn gallu cynnig ffyrdd hawdd o gyfathrebu â phobl, ond gallai'r byd seiber fod yn newydd i nifer o ddefnyddwyr, fe allai godi ofn, ac nid yw heb ei beryglon.

Mae llawer o fudiadau bellach yn cynnal gweithgareddau ar-lein trwy gyfrwng llwyfannau, fel Zoom, Whatsapp neu Microsoft Teams. Er bod y llwyfannau hyn yn cynrychioli atebion cyfleus dros dro, maen nhw'n destun peryglon diogelu. Er enghraifft, gallai ymddygiad gwael gan ddefnyddwyr wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus, yn ddigalon neu eu bod yn cael eu targedu. Gallai pobl anaddas gael mynediad i ddata personol pobl eraill ac yna'i ddefnyddio i'w hecsbloetio neu eu cam-drin. Gallai stelcio, aflonyddu a bwlio ddigwydd ar-lein ac mae adroddiadau eisoes o gynnydd yn nifer y sgamiau ar-lein ynghylch y coronafeirws. Mae tystiolaeth hefyd bod digwyddiadau ar-lein yn achosi mwy o flinder a

straen i bawb, felly fe allen nhw fod yn arbennig o heriol i rai pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, problemau synhwyraidd, a rhai mathau o namau.

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu buddiolwyr rhag niwed a cham-drin pan fo nhw'n ymgysylltu â'n gwasanaethau ar-lein, yn ogystal â'n gweithgareddau all-lein.

Fel mae'r [blog hwn gan Catalyst](#) yn nodi, 'does dim llwyfan ar-lein sy'n 100% ddiogel. Mae peryglon yn codi bob amser. Ond fe allwch chi eu lleddfu nhw:

- Through the platform choices you make.
- By guiding and training your staff in the basics of online safety and security (at least)
- By advising your users on keeping themselves safe.

Drwy ddilyn proses adolygu gadarn sy'n eich galluogi chi i gadw llygad ar y peryglon. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Seiberddiogelwch cyffredinol
- Pethau i'w hystyried wrth gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd ar-lein
- Cyngor enghreifftiol i fuddiolwyr i'w helpu nhw i gadw'n ddiogel wrth gael mynediad i wasanaethau ar-lein
- Rhestr wirio ar gyfer cynnal gweithgareddau ar-lein

SEIBERDDIOGELWCH CYFFREDINOL

Dyma bum rheol seiberddiogelwch y dylai pawb eu dilyn

1. Bod o ddifrif wrth osod cyfrineiriau
2. Buddsoddi amser, arian, ac ymdrechion wrth wella eich ymwybyddiaeth (gweler y dolenni isod)
3. Defnyddiwch VPN bob amser (rhwydwaith preifat rhithwir) pan fyddwch yn pori'r we

4. Peidiwch â llwytho dim i lawr oddi ar wefan neu ddarparwr cynnwys nad ydych yn ymddiried ynddyn nhw
5. Byddwch yn ofalus ynglŷn â'r hyn rydych yn ei bostio. Meddyliwch. Dylai geiriau ac ymddygiad ar-lein fod yn dilyn yr un safonau ag y byddech yn eu disgwyl wyneb i wyneb

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â seiberddiogelwch cyffredinol, gweler [Hanfodion Seiber](#).

PETHAU I'W HYSTYRIED WRTH GYNNAL DIGWYDDIADAU A CHYFARFODYDD AR-LEIN

1. Diogelwch

- Gwnewch ychydig o waith ymchwil ar y llwyfannau gwahanol sydd ar gael a defnyddio meddalwedd a llwytho cynnwys i lawr o ffynonellau y gellir ymddiried ynddyn nhw yn unig
- Gwiriwch y gosodiadau preifatrwydd a rhannu data cyn eu defnyddio
- Gwnewch yn siŵr bod y cyfrinair ar gyfer cyfrif eich sefydliad yn un cryf ac unigryw
- Gwnewch yn siŵr bod yr hwyluswyr neu'r rhai sy'n cynnal y digwyddiad yn gwirio'r hyn sydd i'w weld drwy eu camera cyn cychwyn y digwyddiad (er mwyn osgoi dangos unrhyw wisg anaddas, lluniau teulu, ac ati.)
- Mae rhai llwyfannau yn caniatáu ichi recordio cyfarfod, felly gwnewch yn siŵr mai'r hwylusydd yn unig sy'n gallu recordio, rhannu'r sgrin a dangos sleidiau
- Peidiwch **byth** a chaniatáu i ddigwyddiad neu alwad ar-lein fod yn gyhoeddus. Defnyddiwch gyfrinair neu PIN i gael mynediad, neu anfonwch ddolen ddiogel i unigolion drwy neges e-bost neu defnyddiwch wahoddiad calendr. Byddai caniatáu i ddigwyddiad fod yn un cyhoeddus yn cynyddu'r risg o ddenu haciwyr, neu ddefnyddwyr sydd heb eu gwirio.

- Defnyddiwch y nodwedd cyntedd i sicrhau eich bod yn adnabod pobl a gwirio pwy ydyn nhw cyn i chi eu croesawu i'r ystafell
- Ystyriwch pa gyngor y byddwch yn ei roi i fuddiolwyr ynglŷn â defnyddio eu camera - ydyn nhw'n hapus i bobl eraill weld eu hwynebau a'u cartrefi? Rhowch wybod iddyn nhw o flaen llaw sut i ddefnyddio'r opsiynau pylu a chefndir

2. Profiad defnyddiwr

- Gwnewch yn siŵr bod staff yn profi'r gwasanaeth cyn y cyfarfod neu'r alwad er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r meddalwedd. Gwiriwch y meicroffon, lefel sain y seinydd, gwedd y camera ac os yw'r cysylltiad yn ddigon cryf
- Anfonwch gyfarwyddiadau clir cyn y cyfarfod yn dweud wrth bobl sut i ymuno â'r gweithgaredd a defnyddio'r meddalwedd. Cofiwch, nid yw pawb yn wybodus ynglŷn â thechnoleg a gallai rhai fod angen cymorth ychwanegol gyda hyn
- Meddyliwch yn ofalus ynglŷn â pha mor hir fydd y digwyddiad. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn methu â chanolbwyntio am fwy nag awr. Os bydd y digwyddiad yn hirach na hynny, gwnewch yn siŵr bod cyfnodau o egwyl i bawb
- Sefydlwch reolau sylfaenol ynglŷn ag ymddwyn yn barchus a rhowch wybod y gallai unrhyw un sy'n torri'r rheolau gael eu tynnu o'r digwyddiad dros y we
- Ceisiwch gael staff ychwanegol yn yr ystafell i gadw golwg ar bethau fel sgysiau grŵp
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i dynnu defnyddiwr rhag ofn i rywun ymddwyn mewn ffordd ddifriol neu bostio cynnwys a allai achosi gofid
- Gwnewch yn siŵr ei bod hi'n rhwydd i bobl fynegi pryderon a rhowch fanylion cyswllt y rhai y gellir siarad â nhw os ydyn nhw'n anhapus ynglŷn ag unrhyw beth a ddigwyddodd yn ystod y gweithgaredd

- Gwnewch yn siŵr bod staff yn cael cyfle i adrodd yn ôl wedi'r digwyddiadau er mwyn trafod materion a rhoi gwybod am unrhyw bryderon
- Rhowch wybod am unrhyw ddigwyddiadau diogelu sy'n digwydd ar-lein i'r awdurdodau priodol fel y byddech chi'n ei wneud gydag achosion sy'n digwydd all-lein (fel yr heddlu, yr awdurdod lleol, y Comisiwn Elusennau)

Adnoddau

- NCSC: [Gwasanaethau fideogynadleda: canllaw diogelwch i sefydliadau](#)
- NCSC: [Ffeithlun fideogynadleda](#)
- Catalyst: [Beth allai taith ieuenctid i Dartmoor ddysgu i ni ynglŷn â diogelu digidol](#)
- Catalyst: [Sut i wneud asesiad risg och llwyfan trydydd parti dewisol ar gyfer darparu gwasanaeth ar-lein](#)
- Catalyst: [Sut mae Safe Lives yn defnyddio technoleg i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn ystod COVID-19](#)
- NSPCC: [Rheolaeth rhieni](#)
- [Gwefan Thinkuknow](#)
- [Get Safe Online](#)
- Cynghrair gwrthfwlio: [ar-lein ac adnoddau a hyfforddiant gwrthfwlio am ddim](#)

CYFARWYDDYD SEIBERDDIOGELWCH ENGHREIFFTIOL I DDEFNYDDWYR

Dyma gyfarwyddyd syml y gallwch chi ei addasu ar gyfer eich defnyddwyr fel bo'n briodol:

Pethau i'w cofio

Er mwyn helpu defnyddwyr i fod yn ddiogel mewn lleoliad seiber, dyma rai rheolau i'w dilyn.

Pan fyddwch chi'n creu cyfrif, meddyliwch am nifer o opsiynau.

COFIWCH Y CANLYNOL

- Rhoi enw defnyddiwr i chi eich hun er mwyn i chi allu cuddio pwy ydych chi
- Defnyddio afatar neu symbol gweledol arall yn lle eich llun
- Rhoi'r gosodiadau preifatrwydd ar yr opsiynau uchaf / cryfaf
- Defnyddio rheolaethau rhieni lle mae modd gwneud hynny ac os oes gennych chi blant sy'n defnyddio eich dyfeisiau (gosod rheolaethau rhieni ar eu dyfeisiau eu HUNAIN)
- Dim ond ymateb i wahoddiadau gan bobl rydych chi eisoes yn eu hadnabod a pheidiwch â chael eich denu i dderbyn gwahoddiadau gan 'ffrindiau i ffrindiau' oni bai eich bod yn gwybod pwy ydyn nhw
- Ymuno â grwpiau caeedig yn unig - bydd rhai yn gofyn i chi wneud cais a chael eich cymeradwyo
- Anfon gwahoddiadau at bobl rydych yn eu hadnabod go iawn
- Dileu cysylltiadau sydd ddim yn 'ymddwyn' yn briodol ar-lein. Mae gan nifer o ddarparwyr opsiwn 'Riportio'
- Cadw negeseuon amhriodol fel tystiolaeth (bwlio, iaith casineb, stelcio, ysgogi ac ati) a rhoi gwybod am hyn i'r heddlu
- Defnyddio negeseuon uniongyrchol neu e-byst os ydych chi angen rhannu gwybodaeth bersonol
- Helpu teulu a ffrindiau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel

- Cofiwch nad ydy neges destun ar ei phen ei hun yn gallu dangos mynegiant yn yr un ffordd â siarad, does dim tŷn na chynnwys, ac mae'n hawdd camddehongli neges
- Mae gofyn am help gan aelod iau o'r teulu yn syniad da, ond mae llawer o bobl ifanc yn llai pryderus ynglŷn â materion diogelwch y byddai defnyddwyr eraill eisiau eu hystyried

PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL

- Gadael i'ch cyfeiriad a'ch manylion personol neu fanylion cyswllt eraill fod yn gyhoeddus (fe allai effeithio ar eich yswiriant a byddwch yn agored i'r wybodaeth gael ei chamddefnyddio) yn eich proffil neu mewn fforymau agored
- Agor neges / dolen os ydych yn amheus o gwbl
- Rhannu calendr a fyddai'n gallu dangos adegau pan na fyddwch chi gartref (pan fyddwch yn cael gadael y cartref)
- Rhannu / ail-drydar / anfon deunydd ymlaen a allai fod yn gamarweiniol neu'n ddryslyd (ee ffeithiau ffug neu fythau) yn ystod epidemig covid-19
- Rhannu / aildrydar / anfon deunydd ymlaen a fyddai'n gallu achosi sarhad, gan gynnwys noethni, neu ysgogi casineb, erledigaeth neu derfysgaeth
- 'Dweud' rhywbeth ar-lein na fyddech chi'n dweud wrth rywun wyneb i wyneb

RHESTR WIRIO I FUDIADAU

1	Oes gan eich staff / gwirfoddolwyr y sgiliau i gynnal gweithgareddau ar-lein? Os nad oes ganddyn nhw, fyddwch chi'n gallu cynnig hyfforddiant iddyn nhw neu adael i rywun arall mwy profiadol eu rhoi ar ben y ffordd?	
2	Ydych chi wedi gwirio'r gosodiadau diogelwch a rhannu data ar y llwyfan rydych chi wedi'i ddewis?	
3	Ydych chi wedi gwneud profion i wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio (camera, microffon) ac ati?	
4	Ydych chi wedi sicrhau bod y gweithgaredd yn ddiogel? (wedi'i ddiogelu gan gyfrinair neu PIN)?	
5	Ydych chi wedi anfon cyfarwyddiadau clir at ddefnyddwyr ynglŷn â sut i gael mynediad at y gweithgaredd?	
6	Oes gennych chi ddigon o staff i gynnal y gweithgaredd? ee rhywun i siarad / cyflwyno, rhywun i gadw llygad ar y sgwrs	
7	Ydych chi wedi gosod disgwyliadau neu reolau sylfaenol ynglŷn ag ymddygiad yn ystod y gweithgaredd?	
8	Os bydd y gweithgaredd yn para'n hirach nag awr, ydych chi wedi trefnu bod egwyl?	
9	Ydych chi'n gwybod sut i dynnu / dileu unrhyw ddefnyddwyr y mae eu hymddygiad yn achosi problem?	
10	Ydych chi wedi rhoi gwybod i ddefnyddwyr sut i roi gwybod am unrhyw beth a fyddai wedi achosi pryder iddyn nhw yn ystod y gweithgaredd?	
11	Ydy staff yn cael cyfle i adrodd yn ôl a thrafod unrhyw faterion ar ôl y gweithgaredd?	

YMWADIAD

Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu er gwybodaeth yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor cyfreithiol na phroffesiynol ac nid yw CGGC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled a achosir o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.